**Cyngor Cymuned Y Bontnewydd**
**COFNODION CYFARFOD MISOL TACHWEDD 2019**
Tachwedd 7 2019 7.00 yh Y Ganolfan, Y Bontnewydd

**PRESENNOL:**

**Cynghorwyr:** Peter Garlick, Huw Orwig, Gruff Williams, Erddyn Davies, Mirain Llwyd Owen, Wynn Roberts

**Cadeirio:** Geraint Strello

**Clerc:** Huw Llwyd Rowlands

## 1. YMDDIHEURIADAU

Emyr Williams, Dafydd Iwan, Gwyneth Thomas, Math Williams

## 2. DATGAN DIDDORDEB/BUDDIANT PERSONOL

Dim

## 3. CADARNHAU COFNODION MIS HYDREF 2019

| | |
|---|---|
| Cadarnhawyd cofnodion mis Hydref 2019 | Cynnig: Peter Garlick<br>Eilio: Erddyn Davies |

## 4. MATERION YN CODI O'R COFNODION

### 4.1 Adroddiad gan y Cynghorydd Peter Garlick

Adroddodd y Cynghorydd Peter Garlick fod cyfarfod wedi bod ym Montnewydd efo Arweinydd Cyngor Gwynedd, y Cynghorydd Dyfrig Siencyn ar 30 Hydref. Bu'r cyfarfod yn un buddiol.

Trafodwyd goryrru yn Llanfaglan, yn benodol pryder am oryrru drwy'r pentref, a chynnydd mewn traffig wrth i'r ffordd osgoi gael ei hadeiladu. Gofynnwyd i'r Cynghorydd Dyfrig Siencyn edrych ar fyrder ar y mater yma, ac fe gytunodd i wneud ymholiadu pellach parthed y mater.

Bu trafodaeth hefyd ar y ffordd osgoi yn gyffredinol, hefyd Y Ganolfan, llifogydd afon Gwyrfai, a'r A487 drwy Fontnewydd wedi i'r ffordd osgoi

agor.  Bryd hynny bydd y ffordd yn trosglwyddo o Lywodraeth Cymru i Gyngor Gwynedd.

Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at y Cynghorydd Dyfrig Siencyn i ddiolch iddo am ei ymweliad, ac i ofyn am ddiweddariad  ar fater traffig yn teithio drwy Lanfaglan.

Bydd gwaith ail-wynebu yn cael ei wneud ger Stâd y Bryn, ond gall y bydd hyn yn llithro i'r flwyddyn ariannol nesaf.

Mae yna gynllun gan Gyngor Gwynedd i osod rhywstrau ar y palmant ger yr Hen Felin ym Montnewydd, fel na all cerbydau barcio ar y pafin. Does dim pafin ar ochr arall i'r ffordd, ac felly mae'n bwysig fod y pafin yn cael ei gadw'n glir ar gyfer cerddwyr.

**4.2  Y Ganolfan, Bontnewydd**

Cafwyd adroddiad ysgrifenedig gan y Cynghorydd Math Williams.

Arian yn y banc 4/11/19, £3400. Gwaith heb eu talu (aros biliau): rhwng £2500 a £3000. Arian heb eto gael ei bancio: tua £200.  Nid yw'r sefyllfa yn achosi pryder: disgwyliaf ddigon o incwm o logi i adfer cwpwl o filoedd yn y cyfrif o fewn rhyw ddau fis. Cofier bod cost cyfleustodau a gofalwr tua £550 y mis.

**Gwaith cynnal a chadw a gwelliannau ym mis Hydref:**

1.Adnewyddu'r to fflat tros y fynedfa, cyntedd bach a storfa'r gofalwr - wedi ei orffen; aros bil. Mae'r ystafell wedi cael cot o baent ond roedd mannau ar y waliau yn rhy wlyb i dderbyn y paent: mae sychwr wedi bod yno am wythnos. Bydd angen peintio eto.
2. Drysau tân y cyntedd wedi eu hail-hongian i gau bwlch gwynt; a chlo newydd wedi ei osod. Mae'n bosib dadgloi'r drysau o'r tu allan eto. Y saer hefyd wedi gosod clo newydd ar y drws rhwng ystafell Meithrin a'r gegin; a handlen newydd ar y drws rhwng ystafell Meithrin a'r cyntedd. Talwyd £175.
3. Mae piben dŵr glaw ar ochr iard yr ysgol wedi torri eto (am yr ail waith o fewn 18 mis; oherwydd peldroed). Disgwyl iddo gael ei ail-osod Sadwrn 9fed Tachwedd gyda gorchudd gwarchodol (fel rhai'r ysgol).
4. Adnewyddu'r hen ystafell snwcer i greu ystafell ymgynnull: mae'r pensaer yn cwblhau cynlluniau ar ôl derbyn ymateb gan Safonau Adeiladu.

5. Ystafell fach yn agor i'r neuadd (gynt yn ystafell y clwb ieuenctid): penderfynnodd Pwyllgor y Ganolfan gael gosod silffoedd cadarn ynddi fel ystorfa i holl bethau Clwb ar ôl Ysgol ac i Hwyl y Bont. Saer i'w gosod Sadwrn 16eg Tachwedd.
6. Mae cartgylchu newydd ar waith; mae yma ddau nawr. Rydym wedi archebu dau focs glas arall ar gyfer gwastraff papur (papur sychu dwylo o'r toiledau gan fwyaf) a cadi gwastraff bwyd. Mae'r bin gwyrdd yn orlawn bob casgliad ac rydym yn ceisio annog defnyddwyr y Ganolfan i ddidoli eu sbwriel ar gyfer eu hailgylchu.

## 5. MATERION YN CODI O’R COFNODION

### 5.1 Croesawu Gruffydd Williams fel Aelod Cyfetholedig Newydd

Croesawyd Gruff Williams i’r cyfarfod fel aelod cyf-etholedig newydd.

### 5.2 Prosiect 2020

Trafodwyd y prosiectau cymunedol y medrai’r cyngor cymuned ymgymryd â hwy yn 2020, gyda chyllideb o £3,000.

Trafodwyd amrwyiol bosobiliadau, gan gynnnwys gosod paneli haul ar Y Ganolfan a chynnig grantiau bychan i grwpiau lleol wneud gwaith amgylcheddol yn y gymuned.

### 5.3 Gwefan Cyngor Cymuned

Cafwyd amrywiol brisiau gan amryw o ddarparwyr gwefan, a’r prisiau yn dibynnu i raddau ar lefel y ddarpariaeth a geisir.

Cytunwyd nad oedd angen gwefan rhy gymhleth, ond bod angen penderfynu ar y darparwr yng nghyfarfod Rhagfyr.

### 5.4 Rheoliadau Gwrychoedd 1997

Ysgrifennwyd at yr unigolyn oedd wedi codi’r mater yma yn dilyn cyfarfod mis Hydref.

Roedd yr unigolyn yn parhau o’r farn fod y gwahanol asintaethau a chyrff oedd yn ymwneud â’r ffordd osgoi a gweithredu’r rheoliadau wedi bod yn hynod araf ac anodd yn rhoi gwybodaeth ac yn cydnabod pryder aelodau’r cyhoedd a’r cyngor cymuned parthed y mater yma.

Tra'n cytuno â'r farn yma, fe gytunwyd mai'r cam gorau nesaf i'r unigolyn fyddai ysgrifennu'n ffurfiol at y Gweinidog Economi a Thrafnidiaeth, Ken Skates, gan mai Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am weinyddu a gwireddu cynllun y ffordd osgoi.

**5.5 Cau Lonydd Lleol**

Oherwydd gwaith ar y ffordd osgoi, mae'r ffordd rhwng Bontnewydd a Llanfaglan ar gau am gyfnod sylweddol. Ni cheir mynediad i gerddwyr ychwaith.

Cydymdeimlwyd â'r trigolion a'r anghyfleustra oedd yn cael ei achosi, er nad oedd yna ateb amlwg.

Search hynny, gofynnwyd i'r Clerc weld a fyddai'n bosibl i'r trigolion hynny sy'n gorfod teithio milltiroedd ychwanegol hawlio iawndal.

**5.6 Goryrru Llanfaglan**

Gobeithir y bydd y stribedi coch yn cael eu gosod erbyn diwedd y flwyddyn.

Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Gyngor Gwynedd i'w hatgoffa fod angen ail-baentio'r marc "Araf" sydd ar y ffordd.

**6. MATERION ARIANNOL**

**6.1 Cyflog a Chostau Clerc Hydref 2019**

£234.00 - £46.80 treth incwm = £187.20 + costau swyddfa £45.00

**Cyfanswm Gros** £279.00
**Cyfanswm Net** £232.20

**6.2** Anfoneb Archwilio Mewnol 2018/19 Cyngor Gwynedd - £192.00

**6.3** Anfoneb Un Llais Cymru - Cwrs defnyddio Gwefannau a Chyfryngau Cymdeithasol, Rhif 5120 - £40.00

**6.4** Costau teithio'r Clerc i'r Cwrs Uchod – 81milltir x 0.43c = £34.83

## 7. CYNLLUNIO A MATERION CYFREITHIOL ERAILL

Cais Cynllunio C19/0985/19/LL – Cais ar gyfer symud uned wyliau bresennol ynghyd â darparu sied a gwaith cysylltiol, tir ger Plas y Bryn, Bontnewydd. Doedd dim gwrthwynebiad i'r cais

## 8. GOHEBIAETH

Dim

## 9. MATERION ERAILL

### 9.1 Cymru yn ei Blodau

Cyrhaeddodd Bontnewydd rownd derfynol Cymru yn ei Blodau 2019. Y Cynghorydd Peter Garlick a chriw bychan fu'n gyfrifol am hyn. Llongyfarchwyd y rhai fu'n gyfrifol a diolchwyd iddynt am eu hymdrech galed fu'n gwella diwyg y pentref.

Cafwyd cyfraniad allweddol o flodau gan Ganolfan Arddio Fron Goch, ac fe gytunwyd y dylai'r cyngor cymuned ddiolch iddynt hwythau am eu cyfraniad hefyd.

Cytunwyd y dylid trafod y mater yma eto yn Chwefror 2020, er mwyn gweld pa gymorth fedrai'r cyngor cymuned ei roi i gystadleuaeth 2020.

### 9.2 Meysydd Chwarae Bontnewydd

Mae Cyngor Gwynedd wedi ysgrifennnu at gynghorau cymuned yn gofyn pa ddiddordeb fyddai ganddynt i gymryd mwy o gyfrifoldeb am feysydd chwarae.

Ceir dau faes chwarae ym Montnewydd, sef un yn yr ysgol gynradd, a'r llall yng Nglan Beuno.

Nid yw maes chwarae'r ysgol ar gael ond yn ystod oriau ysgol, gan fod y giatiau yn cael eu cau wedi oriau ysgol.

Credir mai Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am gynnal a chadw maes chwarae'r ysgol.

Dywedodd y Cynghorydd Peter Garlick fod Cyngor Gwynedd yn torri'r gwair ym maes chwarae Glan Beuno ac yn cymryd cyfrifoldeb cyffredinol ohonno, ond ei fod yntau yn talu i dorri'r gwair am ddau doriad ychwanegol mewn blwyddyn am nad oedd yn credu fod tri toriad Cyngor Gwynedd yn ddigonol.

Cytunwyd fod angen trafodaeth pellach ar y mater cyn dod i unrhyw benderfyniad, ac fe gytunwyd y dylid gofyn i swyddog Cyngor Gwynedd fynychu cyfarfod mis Rhagfyr er mwyn trafod ymhellach.

### 9.3 Argyfwng Newid Hinsawdd

Cafwyd llythyr gan aelod o'r cyhoedd yn gofyn am drafodaeth ar yr argyfwng newid hinsawdd, a pha syniadau fyddai gan y cyngor cymuned ar sut i wynebu'r her yma.

.

Cytunwyd y gallesid edrych ar amrywiol syniadau fel gosod paneli soar yn Y Ganolfan, plannu coed, cydweithio â Siop Bontnewydd i leihau'r defnydd o blastig.

Penderfynwyd trafod y mater yma eto yng nghyfarfod Rhagfyr.

### 9.4 Canllawiau ar gyfer sicrhau gwell Bioamrywiaeth

Mae Deddf Amgylchedd (Cymru) 2016 yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol, (gan gynnwys cynghorau cymuned) i ystyried bioamrywiaeth wrth arfer swyddogaethau a cheisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer swyddogaethau.

Yn ymarferol, mae hynny'n golygu rhoi ystyriaeth i fioamrywiaeth e.e. wrth ddatblygu meysydd chwarae.

Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau statudol erbyn dechrau 2020, a bydd angen llunio cynllun gweithredu wedi i'r rheini gael eu cyhoeddi.

### 9.5 Cisog BT

Mae BT yn ymgynghori ar gau ciosgau and sydd yn cael eu defnyddio llawer, a lle mae yna signal ffôn digonol ar gael.

Y ddau giosg agosaf i Fontnewydd sy’n rhan o’r ymgynghoriad yw rhai Llanrug a Talysarn

**Dyddiad y cyfarfod nesaf – Rhagfyr 5 2019 am 7 yr hwyr yn Y Ganolfan, Bontnewydd**